# Tybiaethau

## Cynlluniau Ffioedd a Mynediad

1. Byddwn yn disgwyl i ragolygon ariannol ystyried y tybiaethau a'r ymrwymiadau a wneir yn y cynlluniau ffioedd a mynediad a gyflwynir i ni ar gyfer y blynyddoedd academaidd hyd at 2026/27. Ceir y canllawiau diweddaraf yn y cyhoeddiad CCAUC W24/07HE.

2. Daw'r cynlluniau ffioedd a mynediad presennol i ben yn 2026/27. Dylai sefydliadau fod yn gweithio mewn ffordd sy'n cyd-fynd yn llawn ag amod Cyfle Cyfartal Medr o 2027/28 ymlaen.

## Incwm ffioedd a recriwtio

3. Rydym yn cydnabod bod paratoi rhagolygon realistig ar gyfer recriwtio myfyrwyr ac incwm ffioedd cysylltiedig yn her eithriadol i ddarparwyr yn yr amgylchiadau presennol. Mae gostyngiadau yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol, gyda dangosyddion demograffig yn dynodi bydd cyfraddau cyfranogi yn y DU hefyd yn gostwng, wedi cynyddu'r gystadleuaeth am fyfyrwyr o'r DU a'r gystadleuaeth am fyfyrwyr rhyngwladol. Nid yw patrymau recriwtio mewn blynyddoedd blaenorol yn ddangosyddion dibynadwy ar hyn o bryd ar gyfer y duedd recriwtio yn y dyfodol. Dan amgylchiadau o'r fath, nid ydym yn disgwyl cael rhagolygon sy'n cynnwys twf sylweddol mewn recriwtio o fewn y tybiaethau craidd. Dylai unrhyw feysydd lle rhagwelir twf mewn incwm ffioedd o'i gymharu â'r flwyddyn gyfredol (2025/26) gael eu hegluro'n llawn a'u hategu gan naratif manwl sy'n nodi'r dystiolaeth sydd ar gael i ategu'r rhesymeg. Dylai'r naratif hwn egluro, lle y bo'n berthnasol, faint o'r cynnydd mewn incwm sy'n gysylltiedig â newidiadau yn y ffioedd a godir am bob myfyriwr a faint sydd i'w briodoli i gynnydd yn niferoedd y myfyrwyr. Dylai gyfeirio at yr wybodaeth recriwtio ddiweddaraf sydd ar gael am recriwtio gan y Brifysgol ei hun ar gyfer 2026/27 ac unrhyw wybodaeth sydd ar gael am recriwtio gan gystadleuwyr a grwpiau cymheiriaid y Brifysgol a sut y mae hynny wedi cael ei ystyried yn y rhagolygon terfynol. Rydym yn cadw'r hawl i ofyn i sefydliad lunio rhagolygon o'r newydd os ydym yn ystyried bod hyn yn angenrheidiol.

4. O ystyried yr heriau recriwtio ar hyn o bryd rydym yn ei gwneud yn ofynnol eto eleni bod sefydliadau'n paratoi ac yn adrodd ar sensitifrwydd i senarios anffafriol yn y rhagolygon. Rydym wedi cadw ein prosesau adrodd ar y senarios hyn ar lefel mor uchel â phosibl er mwyn lleihau'r baich ychwanegol i'r eithaf gan ein bod yn cydnabod y bydd darparwyr yn paratoi senarios tebyg ar gyfer eu trefniadau rheoli risgiau ariannol a'u cynlluniau wrth gefn hwy eu hunain. Mewn ymateb i adborth gan y sector, rydym wedi ehangu gwaith modelu'r sefydliadau eu hunain ar senarios anffafriol realistig i gwmpasu cyfnod llawn y rhagolygon.

5. Rydym yn gofyn am ragolygon ariannol blynyddol gan sefydliadau i oleuo ein hasesiad ni o hyfywedd ariannol a threfniadau rheoli ariannol a llywodraethu sefydliadau fel rhan o'n rôl reoleiddio ac yn ei gwneud yn ofynnol bod y rhagolygon a gyflwynir i Medr wedi cael eu hadolygu a'u cymeradwyo gan Gorff

Llywodraethu/Cyngor y sefydliad. Fel rhan o'r adolygiad hwn trwy'r gyfundrefn Llywodraethu, rydym yn ei gwneud yn ofynnol bod y senario 'anffafriol' yn rhan o'r rhagolygon a gyflwynir sydd wedi cael ei chyfrifo a'i chymeradwyo'n llawn er mwyn darparu sicrwydd bod corff llywodraethu pob sefydliad wedi ystyried goblygiadau ystod o senarios posibl ar gyfer cynaliadwyedd ariannol y sefydliad, ynghyd â'r camau y bydd angen i'r corff llywodraethu eu cymryd os na fydd y niferoedd recriwtio myfyrwyr yn y prif ragolwg yn cael eu gwireddu.

## Niferoedd myfyrwyr

6. Dylai tybiaethau ar gyfer rhagolygon niferoedd myfyrwyr fod yn gyson â'r rhai a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r tablau rhagolygon ariannol.

7. Yn gyffredinol, dylai'r diffiniadau sydd wedi eu cynnwys yng nghylchlythyr Medr/2025/33, Arolwg Ystadegau Cynnar Myfyrwyr Addysg Uwch 2025/26 (HESES25), gael eu defnyddio wrth grynhoi'r wybodaeth o ran rhagolygon niferoedd myfyrwyr sy'n ofynnol gan y cylchlythyr hwn yn Atodiad E Tablau SPF1 i SPF3.

## Cyllid Medr

8. Ymhlith y cylchlythyron allweddol a chyhoeddiadau eraill a ddylai lywio'r rhagdybiaethau o fewn rhagolygon sefydliadau mae:
   - Llythyr cyllido blynyddol Llywodraeth Cymru i Medr ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27.
   - Rhagdybiaethau cyllid Medr ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27, yn seiliedig ar y llythyr cyllido blynyddol.
   - Cyhoeddiad dyraniadau buddsoddi manwl Medr ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27.

9. Gallai lefelau cyllid ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol newid ymhellach yng nghyd-destun lefelau cyllidebau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

10. Byddem yn argymell bod sefydliadau'n dyrannu'r cyllid hwn gan dybio y bydd y lefelau cyllid cylchol cyfredol yn aros yn weddol llonydd.

## Dyraniadau strategaethau a mentrau

11. Dylai tybiaethau ar gyfer dyraniadau strategaethau a mentrau fod yn seiliedig ar gyllid sydd eisoes wedi cael ei wneud yn hysbys mewn cyhoeddiad neu y mae Medr wedi cadarnhau y bydd yn parhau fel a ddarperir ar hyn o bryd.

## Cyfalaf

12. Dylai'r rhagolwg adnabod yr holl brosiectau cyfalaf unigol sylweddol wrth eu henw neu swyddogaeth yn ogystal â ffynhonnell wirioneddol neu fwriadedig arian cyfalaf gan gynnwys dyraniadau cyllid cyfalaf Medr ac unrhyw incwm o waredu tir neu adeiladau lle y bo'n berthnasol. Dylai'r cynigion fod yn gyson â'r strategaeth ystadau gyfredol neu gynigion cyfalaf eraill a dderbyniwyd ar gyfer eich sefydliad, a dylent gynnwys gweithredoedd arfaethedig neu bosibl i brynu tir neu adeiladau yn ogystal â phrosiectau bwriadedig i adnewyddu adeiladau neu godi adeiladau newydd.

13. Dylai'r rhagolwg gynnwys cyfeiriad at unrhyw gynlluniau ar gyfer prosiectau cynnal a chadw cyfalaf hirdymor. Dylai unrhyw newidiadau sylweddol i'r cynigion hyn gael eu hegluro yn y sylwebaeth. Mae llythyr cyllid Llywodraeth Cymru at Medr yn cynnwys cyllid cyfalaf o £10 miliwn ar gyfer y sector addysg uwch yn 2026-27. Dylid rhagdybio y caiff y £10m o gyllid cyfalaf ei ddyrannu ar sail debyg i ddyraniad y flwyddyn gyfredol, sydd i'w gweld yn nogfen Medr/2025/18, Cyllid cyfalaf addysg uwch.

14. Rydym yn parhau i ofyn am fanylion pellach cydnabod grantiau ar gyfer yr holl grantiau perthnasol (cyfalaf ac eraill) lle mae cydnabyddiaeth yn amrywio'n flynyddol gan effeithio ar ganlyniadau gweithredu. Y rhesymeg yw bod hyn yn darparu mwy o eglurder ynghylch perfformiad gweithredu sylfaenol sefydliadau.